48. Ynys Aberteifi

Gwbert, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 199 yr A.O. Aberteifi a Cheinewydd Prif fynedfa: SN160515
Statws	Dynodwyd yn SoDdGA ac, yn ei dro, mae'r safle'n rhan o safle Natura 2000 Ewropeaidd, sef Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) Bae Ceredigion.
Daliadaeth	Prydleswyd gan Glwb Maes Gorllewin Cymru o 1944 ymlaen, ac yna cafodd ei brynu gan yr Ymddiriedolaeth yn 1963, gyda chymorth grant gan CFEN.
Maint	15.6 he (38.5 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Mynediad: wedi'i gyfyngu. Dim ond ar gwch siarter o Aberteifi neu Wbert y gellir cyrraedd y safle yma. Dim ond mewn tywydd cymharol dawel y gellir glanio yn y pen gogleddol fel rheol, ac mae hynny'n arbennig o beryglus mewn gwyntoedd gogleddol. Nid yw gwyntoedd dwyreiniol yn amharu ar hyn oherwydd ceir cysgod gan y pentir cyfagos, ac mae modd cludo criwiau drosodd ar fferi oddi yno neu yn nhraeth Gwbert. Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth am ganiatâd i ymweld.
Cludiant cyhoeddus	Amherthnasol.

Disgrifiad: Ynys yn cynnwys clogwyni a llethrau morol a llwyfandir o laswellt, gerllaw arfordir gogleddol aber yr afon Teifi. Ceir golygfeydd da o Drwyn Cemaes a Pharc Fferm Ynys Aberteifi.

Mae hanes difyr yn perthyn i'r ynys, am ddefnydd ohoni gan bobl. Mae wal o dyweirch yn amgáu safle ble ceid Cell Gristnogol gynnar yn ôl pob tebyg. Mae'r llystyfiant wedi newid yn ddramatig ers y 1950au, a dim ond ardaloedd bychain o blanhigion a geir yma bellach, yn y penrhyn gogledd-orllewinol. Erydwyd y pridd gan bla o Lygod Mawr ar un adeg. Daethant i'r safle o ganlyniad i'r ffaith bod stemar o'r enw'r Herefordshire wedi'i llongddrylio gerllaw'r ynys yn 1934. Cafwyd gwared ar y rhain ar ddiwedd y 1960au gyda chymorth gan swyddogion plâu y Weinyddiaeth Amaeth.

Cyflwynwyd yr unig famaliaid a welir ar yr ynys, Defaid Soay, yn 1944, o braidd Dug Bedford yn Woburn. Mae'r niferoedd wedi amrywio yn y gorffennol ond maent wedi gostwng yn ddifrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, oherwydd y problemau genetig gyda mewnfridio o bosibl.

Gellir rhannu'r llystyfiant yn bedair cymuned: Rhygwellt pur bron yn y pen gorllewinol; glaswelltir ysgithrog mwy amrywiol o Beiswellt-Suran yn y canol gyda chlystyrau helaeth o Glychau'r Gog (4-6) a Chawn Penwyn, a glaswelltir cyfoethocach o beiswellt yn y pen dwyreiniol; llystyfiant clogwyni morol gyda Hocys Coediog (5-9) i'r dwyrain, llystyfiant cyfoethocach ar y pentir gogleddol a gerllaw'r ceunant, gydag Amranwen y Môr (7-8) a Seren y Gwanwyn (4-5).

cardigan island2 1 7/7/06, 3:48 pm



Gwylanod yw'r adar môr sy'n ymgynnull yma fwyaf i fagu, yn cynnwys poblogaeth gynyddol o Wylanod y Penwaig, oddeutu 1400 pâr o Wylanod Cefnddu Lleiaf (data o arolwg 2004) a hyd at 20 pâr o Wylanod Cefnddu Mwyaf. Gwelwyd Llurs yn drechrau magu yma yn 1982 ac ymhlith yr adar eraill sy'n hoffi'r safle i fagu mae'r Gwylog, y Frân Goesgoch, Aderyn Drycin y Graig, y Fulfran Werdd, Pioden y Môr, y Gigfran a Chorhedydd y Graig. Mae Gwyddau Canada a Gwyddau Gwyran yn defnyddio'r ynys hefyd. Mae Morloi Llwyd yn magu yn ogofâu'r môr.

Nodau Rheoli: Mae'r praidd o ddefaid Soay yn pori'r ynys drwy gydol y flwyddyn. Mae niferoedd yr adar môr yn cael eu monitro bob blwyddyn.

Amser da i ymweld	
Ebrill - Medi	Blodau arfordirol
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu
Medi - Tachwedd	Morloi Llwyd yn magu

cardigan island2 2 7/7/06, 3:48 pm